



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

Beechwood College

Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2019

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Ynglŷn â Beechwood College

Mae Beechwood College yn goleg arbenigol annibynnol a chartref gofal wedi'i leoli yn Sili ym Mro Morgannwg. Beechwood Court Ltd, sy'n rhan o Ludlow Street Healthcare, yw'r perchennog.

Mae'r coleg yn cynnig lleoliadau dydd a phreswyl i ddysgwyr 16 oed a hŷn sydd ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth ac sydd, o bosibl, ag anghenion sy'n gysylltiedig â chyflyrau'r sbectrwm awtistig.

Mae'r pennaeth addysg yn arwain tîm o ddarlithwyr a chynorthwyrwyr cymorth dysgu, ac mae ganddo gyfrifoldeb am ddarparu a chyflwyno pob rhaglen addysg. Mae tîm arweinyddiaeth strategol y coleg yn cynnwys y cyfarwyddwr addysg a gofal, y pennaeth addysg, y dirprwy bennaeth addysg, rheolwr y cartref gofal a'r arweinydd clinigol.

Ar hyn o bryd, mae 59 o ddysgwyr ar gofrestr y coleg, y mae 44 ohonynt yn ddynion ifanc a 15 ohonynt yn fenywod ifanc. O'r rhain, ariennir 21 o'r dysgwyr yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru ac ariennir 39 o ddysgwyr gan wasanaethau cymdeithasol ac awdurdodau lleol o amrywiaeth eang o awdurdodau lleol ledled Cymru a Lloegr.

Cynhaliwyd arolygiad craidd diwethaf y coleg yn Ebrill 2014.

Prif ganfyddiadau

Cryfderau

Mae'r tîm arwain yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol ac yn cynnig arweinyddiaeth gadarn. Mae ganddynt ddealltwriaeth sicr o gryfderau'r coleg a'i feysydd i'w datblygu, ac maent wedi gwneud newidiadau buddiol i ymestyn ystod ac ansawdd y profiadau dysgu.

Mae'r tîm addysg yn gweithio'n agos gyda thîm amlddisgyblaeth y coleg i sicrhau bod dull cynhwysfawr a chydlynus o asesu manau cychwyn dysgwyr a'u hanghenion ehangach. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd i adolygu cynnydd dysgwyr ac i gynllunio ymyriadau addas i alluogi dysgwyr i fanteisio ar addysg ac i helpu staff addysgu i gefnogi dysgwyr yn llwyddiannus mewn sesiynau. Mae'r dull integredig hwn yn gryfder sy'n dod i'r amlwg yn narpariaeth y coleg.

Mae llawer o ddarlithwyr yn cynllunio gwersi sydd wedi'u paru'n dda â nodau'r dysgwyr ac maent yn cynnwys amrywiaeth addas o weithgareddau i ennyn eu diddordeb. Mae staff yn adnabod eu dysgwyr yn dda ac yn addasu gweithgareddau'n hyblyg yn ystod sesiynau i ymateb yn briodol i adweithiau dysgwyr a lefelau eu hymgysylltiad.

Mewn gwersi, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cymryd rhan yn frwdfrydig. Maent yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol gyda staff, yn ymateb yn adeiladol i adborth ac yn cynnal eu ffocws yn llwyddiannus. O ganlyniad, maent yn gwneud cynnydd sicr tuag at eu nodau dysgu. Yn benodol, defnyddiant dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn dda i ymchwilio i wybodaeth, mewnbynnu data a chofnodi tystiolaeth o'u cyflawniadau.

Meysydd i'w datblygu

Mae staff yn defnyddio amrywiaeth eang o strategaethau cyfathrebu addas gyda dysgwyr, fel systemau cyfathrebu ar sail cyfnewid lluniau a rhaglenni cyfrifiadurol. Mae'r dulliau hyn yn galluogi dysgwyr i gyfleu eu dewisiadau ac i fanteisio ar eu dysgu yn fwy annibynnol. Fodd bynnag, mae defnydd staff o arwyddo yn rhy gyfyngedig.

Mewn llawer o wersi, mae cynorthwyr cymorth dysgu a gweithwyr cymorth preswyl yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at gynnydd dysgwyr. Maent yn helpu dysgwyr i ddatblygu'u medrau'n effeithiol ac i reoli'u hanawsterau ymddygiadol yn dda. Fodd bynnag, mewn ychydig wersi, nid yw staff cymorth dysgu bob amser yn cael eu dosbarthu er y budd gorau.

Er bod y coleg wedi cyflwyno systemau newydd ar gyfer monitro cynnydd dysgwyr yn ystod sesiynau, nid yw hyn yn ymestyn i gofnodi a dadansoddi presenoldeb dysgwyr a allai fod yn cael addysg am gyfnodau dros dro yn y lleoliad preswyl.

Argymhellion

Dylai'r ysgol:

A1. Wella'r defnydd o arwyddo ar draws y coleg

A2. Sicrhau bod yr holl staff sy'n cefnogi dysgu wedi'u dosbarthu'n effeithiol

A3. Cryfhau cofnodi a dadansoddi presenoldeb

Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

Argymhelliad 1: Sicrhau bod profiadau dysgu yn galluogi dysgwyr i ymarfer a datblygu'r medrau a nodwyd yn eu cynlluniau dysgu unigol

Ers yr ymweliad monitro blaenorol, mae'r coleg wedi cymryd camau addas i alluogi dysgwyr i ymarfer a datblygu'r medrau a nodwyd yn eu cynlluniau dysgu unigol. Er enghraifft, mae wedi ymestyn ystod y profiadau dysgu er mwyn galluogi ffocws cryfach ar ddatblygu medrau annibynnol, cymdeithasol a galwedigaethol gwerthfawr. Mae wedi adolygu fformat cynlluniau sesiynau i nodi'n glir gyfleoedd i ddysgwyr ymarfer y medrau yn eu cynlluniau unigol. Mae darlithwyr yn cyfarfod yn wythnosol i archwilio agweddau cyson at y cynllunio hwn ac i rannu arfer dda.

Yn ddiweddar, mae'r coleg wedi cyflwyno adnodd asesu ar-lein i gofnodi camau cynnydd bach disgyblion yn erbyn eu targedau. Mae hwn yn rhoi cofnod cyfredol o'u cyflawniadau i'r dysgwyr, eu rhieni a'u gofalgwyr, ac mae'n helpu dysgwyr i drosglwyddo ac atgyfnerthu eu medrau yn amgylchedd y cartref. Mae gan arweinwyr brosesau cadarn i olrhain cynnydd dysgwyr yn erbyn eu targedau unigol, trwy gyfarfodydd rheolaidd a thrwy fonitro'r wybodaeth a ddarperir gan yr adnodd asesu yn ofalus.

Argymhelliad 2: Gwella presenoldeb a phrydlondeb

Mae'r coleg wedi cymryd nifer o gamau addas i wella presenoldeb a phrydlondeb dysgwyr. Mae camau allweddol yn cynnwys cyflwyno targed arfarnu i'r holl staff, staff addysgu a staff preswyl, er mwyn cynorthwyo dysgwyr yn well i gyflawni eu targedau presenoldeb eu hunain.

Mae cynnydd dysgwyr tuag at gyflawni eu targedau presenoldeb yn cael ei fonitro'n effeithiol trwy gyfarfodydd tîm aml-ddisgyblaeth y coleg yn ddyddiol. Yn ystod y cyfarfodydd hyn, mae strategaethau ar gyfer gwella ac ymyriadau fel newidiadau i amserlenni yn cael eu trafod ac yna'u rhoi ar waith yn brydlon i annog ailymgysylltu, os bydd angen.

Ar y cyfan, mae gan ddysgwyr ymwybyddiaeth gref o'u targedau presenoldeb ac mae eu gwaith tuag at gyflawni'r rhain yn cael effaith gadarnhaol ar eu hagwedd tuag at eu gwaith. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i werthuso effaith barhaus trefniadau newydd y coleg i wella presenoldeb a phrydlondeb. At hynny, nid yw systemau presennol y coleg ar gyfer cofnodi a dadansoddi data presenoldeb yn cyfrif yn llawn am ystod y ddarpariaeth addysg sy'n cael ei darparu gan y coleg. Er enghraifft, nid yw gwybodaeth am ddysgwyr sy'n cael addysg trwy ddarpariaeth allymestyn y coleg yn y lleoliad presennol yn cael ei dadansoddi fel mater o drefn.

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 201X: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 10/04/2019